



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi yn ceisio cyfoethogi bywydau disgyblion trwy ffydd a gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd eithriadol o uchel. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at les ac ymddygiad disgyblion, a'u hymgysylltiad â dysgu. Mae disgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol ac maent yn cyflawni'n dda.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn rhoi lles disgyblion a staff yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd cryf ag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddarparu'r cymorth gorau posibl ar gyfer disgyblion. Mae wedi datblygu dulliau hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae gweithdrefnau trylwyr ar waith sy'n cadw'r holl ddisgyblion yn ddiogel, ac mae'r diwylliant diogelu yn treiddio ar draws yr ysgol.

Ar y cyd â'i hysgolion cynradd partner, mae'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae pwysigrwydd addysgu da a gwybodaeth bwnc dda wrth wraidd y weledigaeth hon ac mae arweinwyr yn datblygu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae gan athrawon ddisgwyliadau priodol o uchel ar gyfer disgyblion ac maent yn sicrhau lefelau buddiol o her a chymorth yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol, ac ar hyn o bryd nid yw'r ysgol yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ddigon cryf mewn meysydd heblaw gwersi Cymraeg.

Caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli'n dda. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o gydweithio a pharch ar y ddwy ochr, yn seiliedig ar werthoedd Catholig. Maent yn meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol sy'n cael ei rannu gan bob un o'r staff a'r disgyblion, ac yn llwyddo i hyrwyddo cymuned lle caiff pawb eu cefnogi i gyflawni.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei phrosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn briodol. Fodd bynnag, mae diffyg manwl gywirdeb i ychydig o agweddau ar hunanwerthuso, yn enwedig mewn addysgu a dysgu, ac mae hyn yn golygu bod blaenoriaethau adrannol ac ysgol gyfan ar gyfer gwella yn tueddu i fod yn rhy eang.

Argymhellion

A1 Mireinio hunanwerthuso fel ei fod yn nodi'n fanwl gywir unrhyw agweddau ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella

A2 Cynyddu ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau Cymraeg a'u medrau digidol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos, i'w lledaenu ar wefan Estyn, ar ei gwaith yn gysylltiedig â lleihau rhwystrau rhag dysgu i ddisgyblion bregus trwy godi dyhead, cefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion, a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, fel rhan o'i ymyrraeth ExCel yn canolbwyntio ar y disgybl, gan dargedu'r dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi
Awdurdod lleol	Cyngor Caerdydd
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	Catholig
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	1076
Disgyblion o oed ysgol statudol	1076
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%)	15.1%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%)	5.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	3.2%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2018
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	01/02/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	06/03/2023

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/05/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.